



GREU BUSNES CYNALIADWY

## BUSNESAU CYNALIADWY >

Cynllun y sesiwn



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Mewn partneriaeth â:

Howden Group  
Holdings

# CIPOLWG

Dyma'r ail sesiwn yn yr uned 'Creu Busnes Cynaliadwy'. Yn y sesiwn yma, byddwn ni'n edrych yn fanylach ar berfformiad busnesau gwyrdd. Mae cynaliadwyedd busnes yn golygu'r arfer o redeg busnes heb gael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Mae busnes gwyrdd yn edrych y tu hwnt i elw er mwyn ystyried ei effaith ar gymdeithas a'r byd ehangach, ac mae'n gweithredu er budd yr amgylchedd lleol a byd-eang. Cofiwch: Mae'r pwnc yma'n newydd ac yn datblygu, felly mae tystiolaeth a gwybodaeth newydd yn cael ei chyhoeddi bob dydd. Er ein bod ni'n ceisio cadw'r cynnwys yma'n gyfredol, rydym yn eich annog yn frwd i gynnwys unrhyw wybodaeth newydd ac wedi'i phrofi a allai ddod i'r amlwg.



## DEUNYDDIAU

- ✓ Adnodd Adroddiadau busnesau
- ✓ Taflen waith Gwobrau cynaliadwyedd



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cynaliadwyedd – Deiliant Dysgu: Deall egwyddorion cynaliadwyedd economaidd

# DEILLIANNAU DYSGU

- ✓ Bod yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol busnesau
- ✓ Deall sut mae busnesau'n gosod amcanion ac yn rhoi gwybod am eu gwelliannau cynaliadwyedd
- ✓ Gwerthuso gwelliannau cynaliadwyedd detholiad o fusnesau

# GWEITHGAREDDAU

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
<u>Am wastraff</u>	10 munud	<u>03</u>
<u>Ailgylchu</u>	15-20 munud	<u>04</u>
<u>Chi piau'r dewis</u>	30-40 munud	<u>06</u>
<u>Dirwyn i ben</u>	5-10 munud	<u>07</u>

## PWY SYDD WEDI CREU CYNLLUN Y SESIWN YMA?

Cafodd cynllun y sesiwn yma ei greu ar y cyd â Justine Oakes. Mae Justine Oakes CEnv, MIEnvSc, MIEMA yn weithiwr proffesiynol ym maes yr amgylchedd, ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Ar hyn o bryd, Justine yw'r Rheolwr Cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Suffolk, a'r arweinydd Busnes ac Ymchwil ar gyfer Sefydliad Cynaliadwyedd Suffolk. Gan weithio mewn partneriaeth â chynlluniau cynaliadwyedd lleol a chenedlaethol, mae Prifysgol Suffolk yn brifysgol drawsnewidiol sy'n ymgorffori traddodiadau Prifysgol gorau'r Deyrnas Unedig, ac yn eu cysoni â byd modern o gyflogaeth ac entrepreneuriaeth.



# AM WASTRAFF >



AMSER

10 munud

## CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Os hoffech chi wneud rhywfaint o waith darllen ychwanegol cyn y sesiwn yma, mae'r gwefannau hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol:
  - <https://sustainablebusiness.org.uk/network/>
  - <https://www.green-growth.org.uk/network>
  - <https://www.pro-manchester.co.uk/sector-groups/green-economy/>
  - [https://secure.manchester.gov.uk/info/827/growing\\_a\\_business/6634/environmental\\_support\\_for\\_businesses](https://secure.manchester.gov.uk/info/827/growing_a_business/6634/environmental_support_for_businesses)
2. Dechreuwch y sesiwn drwy annog y dysgwyr i rannu canlyniadau eu gweithgaredd yn y cartref o'r sesiwn flaenorol.
3. Dylech arwain trafodaeth am y gwastraff deunydd pacio roedden nhw wedi'i weld a'i gofnodi. Gallech ofyn:
  - Faint o eitemau gwastraff wnaethoch chi eu cofnodi?
  - Pa fath o wastraff wnaethoch chi ei gofnodi – papur, caniau, plastig, ac ati?
  - Pa fath o wastraff oedd i'w weld fwyaf?
  - Oedden nhw'n synnu o weld faint o ddeunydd pacio sy'n cael ei daflu bob wythnos?



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

# RECYCLING >



## AMSER

15-20 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Llundiau o wahanol fathau o wastraff sy'n gysylltiedig â deunydd pacio (dewisol)

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Gofynnwch i'r dysgwyr beth mae 'ailgylchu' yn ei olygu. Eglurwch ei fod yn golygu'r broses o droi deunyddiau gwastraff yn ddeunyddiau a gwrthrychau newydd. I gael rhagor o wybodaeth i'w rhannu am ailgylchu, darllenwch y blwch isod.
2. Dangoswch luniau o wahanol fathau o wastraff deunydd pacio i'r dysgwyr (gallech ddangos [hyn](#) iddyn nhw), neu ysgrifennu/enwi'r gwahanol fathau o ddeunydd pacio o'u gweithgaredd yn y cartref. Gofynnwch iddyn nhw ddweud pa rai sy'n gallu cael eu hailgylchu, a pha rai y byddai'n rhaid eu hanfon i safle tirlenwi.
3. Gofynnwch i'r dysgwyr o beth maen nhw'n meddwl mae plastig yn cael ei wneud. Esboniwch fod plastig yn achosi problem benodol i'r amgylchedd (fe ddylen nhw fod yn ymwybodol o hynny yn sgil y sesiynau blaenorol). Pobl sy'n creu plastigion; does dim plastigion ym myd natur. Maen nhw'n aml yn cael eu creu drwy ddefnyddio olew sy'n dod o'r tir. Mae'r broses o greu plastigion yn eithaf cymhleth fel arfer.
4. Pwysleiswch ei bod hi'n bwysig ein bod ni, fel cymdeithas, yn canolbwyntio ar gynhyrchu a defnyddio deunyddiau y mae'n haws eu hailgylchu ac, yn ddelfrydol, yn ceisio defnyddio cyn lleied â phosibl o ddeunyddiau pacio.

Os hoffech chi drafod ailgylchu ymhellach, edrychwch ar y blwch isod i gael rhagor o wybodaeth y byddech chi'n gallu ei rhannu â'ch grŵp.

## AILGYLCHU

Pan fyddwn ni'n ailgylchu, mae deunyddiau sydd wedi cael eu defnyddio yn cael eu haddasu i greu cynnyrch newydd, sy'n lleihau'r angen i ddefnyddio adnoddau naturiol. Os nad yw deunyddiau yn cael eu hailgylchu ar ôl cael eu defnyddio, mae cynnyrch newydd yn cael ei greu drwy echdynnu deunydd crai, newydd o'r Ddaear, drwy gloddio a choedwigaeth.

Mae ailgylchu hefyd yn helpu i ddiogelu deunyddiau crai pwysig, ac yn gwarchod byd natur ar gyfer y dyfodol. Mae defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu ym mhroses weithgynhyrchu ffatri yn defnyddio llawer llai o ynni na'r hyn sydd ei angen i greu cynnyrch newydd o ddeunyddiau crai.

Hefyd, mae rhagor o ynni yn cael ei arbed oherwydd mae angen mwy o ynni i gloddio, i buro, i gludo ac i brosesu'r deunyddiau crai er mwyn iddyn nhw fod yn barod i gael eu defnyddio gan y ffatri. Drwy ailgylchu, rydym yn darparu deunyddiau sy'n barod i gael eu defnyddio gan ddiwydiant, ac yn lleihau'n sylweddol faint o lygredd aer a llygredd dŵr sy'n cael ei greu.





Gan fod ailgylchu'n arbed ynni, mae hefyd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Yn ôl yr amcangyfrif, mae'r prosesau ailgylchu cyfredol yn y Deyrnas Unedig yn arbed dros 18 miliwn tonnell o CO2 y flwyddyn – mae hynny fel tynnu 5 miliwn o geir oddi ar y ffordd bob blwyddyn.

Mae deunyddiau y gellir eu hailgylchu yn cael eu hailbroseu i greu cynnyrch newydd, ac o ganlyniad, mae llai o sbwriel yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Twll mawr yn y ddaear yw safle tirlenwi i bob pwrpas. Rydym yn taflu ein holl sbwriel i mewn i'r twll, ac wedyn yn ei orchuddio ac yn tyllu twll arall. Mae dros 1,500 o safleoedd tirlenwi yn y Deyrnas Unedig, ac wrth i'r sbwriel yma ddechrau dadelfennu mae'n creu nwy peryglus arall sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, sef methan.



Prince's Trust

**START  
SOMETHING**

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Businesses | 05

# CHI PIAU'R DEWIS >



## AMSER

30-40 munud



## DEUNYDDIAU

- ✓ Adnodd Adroddiadau busnesau
- ✓ Taflen waith Gwobrau cynaliadwyedd



## CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Gwahanol gynlluniau/ sefydliadau sy'n hybu cynaliadwyedd economaidd

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n cael eu cyflwyno i dri busnes yn y gweithgaredd yma. Eglurwch fod busnesau'n aml yn defnyddio adroddiadau a phosteri i ddweud beth maen nhw wedi'i gyflawni mewn blwyddyn yng nghyswllt datblygu cynaliadwy.
2. Eglurwch ei bod yn rhaid i fusnesau gasglu data drwy gydol y flwyddyn i brofi eu bod wedi gwella eu perfformiad. Mae'r data yma'n canolbwyntio ar faint o ynni, dŵr a gwastraff maen nhw'n ei ddefnyddio a'i gynhyrchu.

Bydd busnesau mawr yn aml yn rhyddhau adroddiad blynyddol i'r cyhoedd i ddangos sut maen nhw'n perfformio, ac i ddweud beth maen nhw'n ei wneud i leihau eu heffeithiau amgylcheddol.

3. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach neu'n barau, a dywedwch wrthyn nhw eu bod wedi cael eu dewis i fod yn feirniaid ar 'Banel Gwobrau Cynaliadwyedd Prince's Trust'.
4. Gan ddefnyddio'r adnodd 'Adroddiadau busnes' a'r daflen waith 'Gwobrau cynaliadwyedd' rhaid iddyn nhw drafod pwy, yn eu barn nhw, ddylai gael y wobwr gyntaf, yr ail wobwr, a'r drydedd wobwr. Fe ddylen nhw seilio eu penderfyniadau ar berfformiad y busnesau yn ystod y flwyddyn i leihau eu heffeithiau amgylcheddol.
5. Ar ôl i'r dysgwyr gael digon o amser i benderfynu a chofnodi eu penderfyniadau, gofynnwch i bob grŵp i bwy roedden nhw wedi rhoi'r wobwr gyntaf, a pham. Gallech hyd yn oed gael trafodaeth rhwng grwpiau a oedd wedi rhoi'r wobwr gyntaf i wahanol fusnesau.
6. Dylech barhau â'r drafodaeth drwy ofyn:
  - Pam wnaethoch chi roi'r ail wobwr a'r drydedd wobwr i fusnesau eraill?
  - Pa weithred cynaliadwyedd oedd wedi gwneud yr argraff fwyaf arnyn nhw?
  - Oedd y grŵp i gyd yn cytuno? Sut roedden nhw wedi dod i benderfyniad ar y cyd?

### AWGRYM YR HWYLUSYDD

Gallai'r gweithgaredd yma helpu i ddangos dealltwriaeth eich dysgwyr ar gyfer y cymhwyster. Ond, efallai y byddwch chi am addasu'r gweithgaredd yma – er enghraifft, bydden nhw'n gallu edrych ar sefydliadau/cynlluniau eraill nad ydyn nhw o reidrwydd yn fusnesau.



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings

Session plan: Sustainable Businesses | 06

# DIRWYN I BEN >



## AMSER

5-10 munud

# CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Cynhaliwch drafodaeth fyfyrion fel grŵp i ddod â'r sesiwn i ben. Gallech ofyn:
  - Beth wnaethoch chi ei ddysgu yn y sesiwn heddiw?
  - Pam mae ailgylchu'n bwysig?
  - Pa fathau o bethau y gall busnesau eu gwneud i fod yn gynaliadwy ac i gyfyngu eu heffaith ar yr amgylchedd?



Prince's Trust

START  
SOMETHING

Howden Group  
Holdings